

# Y NEGESYDD

## IONAWR 2021

### ER COF AM LLOYD JONES (1966-2020)



Rhan o deyrnged Esgob Bangor

i'r Parchedig Lloyd Jones mewn neges i'r esgobaeth :

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod ein brawd a'n cyfaill, Lloyd Jones, wedi'n gadael, a'i fod gyda'i Arglwydd a'i Dduw. Bu farw Lloyd yn sydyn ac yn annisgwyl gartref yng Nghlynnog Fawr dros nos.

Cofiwn am gynulleidfaoedd Lloyd yn Ardal Weinidogaeth Beuno Sant Uwch Gwyrfaï, a'i gydweithwyr agos yn yr archddiaconiaeth a thu hwnt, wrth iddynt hwythau ddod i delerau â'r newyddion trasig hyn.

Mae Lloyd wedi bod wrth graidd bywyd ein hesgobaeth ers blynyddoedd lawer, gan wasanaethu ei eglwysi a'i gymunedau â gofal ac ymroddiad. Fel offeiriad, ficer a Deon Bro, ymroddiad a hiwmor oedd rhinweddau ei weinidogaeth, ac ni fyddwn yn anghofio ei angerdd, ei hwyl wrth adrodd stori, a'i chwerthin llon. Yng ngalar y foment hon, rwy'n siŵr y byddai Lloyd am inni serio'n golwg ar obaith yr atgyfodiad a'r addewid a roddir inni o oleuni y bywyd tragwyddol.

+Andrew Bangor

8 Rhagfyr 2020

Cawsom gyfle yma yn Emaus i fwynhau'r angerdd a'r hwyl y cyfeirir atynt gan Esgob Andrew. Mewn cyfres o nosweithiau yn ei gwmni yn y festri deuthum i deimlo ei agosatrwydd a gwerthfawrogi ei gynhesrwydd. Mae ein cydymdeimlad gyda Casi, Dafydd, Tomos a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

*"Hoffwn i a'r teulu ddiolch am bob cefnogaeth gan aelodau a chyfeillion Emaus yn ein profedigaeth a gofynnwn i chi barhau i'n cofio yn eich gweddïau. Mae cariad Duw a charedigrwydd dynol yn ein cynnal drwy'r cyfan."*

Casi



## TREFNIADAU IONAWR



Bydd cyfarfodydd Ionawr, sy'n cynnwys pum Sul eleni,  
yn cael eu cynnal dros Zoom yn hytrach nag yn y capel,  
yn amodol ar ganllawiau'r Llywodraeth.

Mae nifer dda o bobl yn cysylltu trwy Zoom  
ar eu cyfrifaduron ar hyn o bryd  
a rhai hefyd yn cysylltu drwy'r ffôn.

Mae eraill wedi cael bendith fawr  
wrth ddarllen deunydd sy'n eu cyrraedd trwy'r post.

Ar fore Sul, 3 Ionawr, cynhelir oedfa arbennig  
i groesawu'r flwyddyn newydd  
gyda chyfraniadau amrywiol gan ein haelodau,  
dan arweiniad Eleri Lloyd Jones.

Rydym wedi derbyn nifer dda o gynigion  
gan garedigion yr eglwys i'n cynorthwyo yn ymarferol  
a rhagwelwn y byddwn yn mantasio  
ar y cynigion hael hynny.

Byddwn yn gwahodd arweinwyr cyfarfodydd  
i ddarparu deunydd darllen ymlaen llaw,  
pan fo hynny'n bosibl,  
fel y gallwn ddosbarthu'r deunydd  
trwy'r post ac ebost dros y cyfnod hwn.

Os ydych yn dymuno derbyn rhagor o gyfarwyddiadau  
ynghylch sut orau i ddefnyddio Zoom,  
neu sut i gysylltu dros y ffôn,  
neu sut i dderbyn deunydd darllen,  
cysylltwch gyda Dilwen Lloyd Jones os gwelwch yn dda

**01248 364665 - [dilwen.emaus.bangor@gmail.com](mailto:dilwen.emaus.bangor@gmail.com)**

## CERDD DANT



Osian Williams

Un o'r digwyddiadau cenedlaethol a ganslwyd eleni oherwydd COVID 19 oedd yr Ŵyl Gerdd Dant, a oedd i fod i'w chynnal yn Llanfyllin, Powys.


Er mwyn llenwi'r bwlch, rhoddwyd dipyn o sylw i'r grefft gan y cyfryngau. Yn y rhaglen 'Bore Cothi' ar Dachwedd 12fed, soniwyd am yr her a roddodd Radio Cymru i Gwennant Pyrs gydweithio efo'r gantores Mared Williams a hefyd Osian Williams (o'r grŵp Candelas).

Yn gyntaf, clywyd Mared Williams yn canu geiriau 'Cofio' gan Waldo Williams ar y gainc 'Siliwen' o eiddo Gwennant. Yna cafwyd fersiwn newydd Mared i'w chyfeiliant ei hun ar y gitâr. Dewiswyd ei haddasiad hi fel 'Trac yr Wythnos' gan Radio Cymru yn ystod yr wythnos.

Hen benillion telyn traddodiadol ddewisodd Gwennant ar gyfer Osian Williams, penillion sydd, fel y dywedodd Gwennant, "mor gyfoes eu neges". Canodd Osian y fersiwn draddodiadol ar y gainc 'Manhyfryd', un arall o gyfansoddiadau Gwennant. Yna cafwyd ei addasiad ef gyda'r drwm, gitâr, gitâr fas ac organ yn gyfeiliant.


Yn amlwg, plesiwyd Gwennant yn fawr gan yr arbrawf a dywedodd fod fersiynau'r ddau "wedi codi i dir uchel" gan godi calon yn y cyfnod anodd hwn.

- Elen



Mared Williams

## CYD-DDIGWYDDIAD TEULUOL



YR HEN

Newyddion da'n ddiweddar oedd fod Ysgol y Garnedd bellach yn ei chartref newydd sbon, yn agos i'w hen safle ger Ffordd Penrhos. Cadeirydd y llywodraethwyr ar hyn o bryd ydy'r Dr Catrin Elis Williams.



A'R NEWYDD

Ym mis Mawrth 1974 agorwyd Ysgol Y Garnedd wreiddiol yn lle Ysgol Gymraeg Sant Paul oedd ar Ffordd Sackville.

Cyfarwyddwr addysg y sir ar y pryd, a chyfarwyddwr cyntaf sir Gwynedd oedd y diweddar Tecwyn Ellis, sef tad Catrin.

Pwy feddyliai hefyd y byddai ei wyrion wedi mynychu'r ysgol?

# TRAIDCRAFT

Diolch unwaith eto i bawb fu'n cefnogi siop Traidcraft drwy'r flwyddyn. Er yr holl anawsterau, llwyddwyd i gadw'r gwerthiant blynyddol yn debyg i'r arfer (trosiant o dros £6500).

Rhannwyd yr elw fel hyn:-

**Mis Awst**

BMS £100

Cymorth Cristnogol £100

Traidcraft Exchange (cangen elusennol Traidcraft) £150

**Mis Rhagfyr**

BMS £150

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol £150

Apêl Nadolig Traidcraft Exchange £150

Y Samariaid (cangen Gogledd-orllewin Cymru) £50

Ni fyddwn yn gofyn am archebion ym mis Ionawr, ond mae nwyddau ar gael os byddwch mewn angen.

**NADOLIG LLAWEN**

Catrin

## STIWIDIO EMAUS

Hyfryd oedd cael croesawu Elin Roberts i Emaus, yng nghwmni Bethan, ei mam, i recordio nifer o garolau gyda'r nod o ddosbarthu fideos i gartrefi gofal erbyn y Nadolig. Wedi graddio mewn Cerddoriaeth ym Mangor y llynedd mae Elin, sy'n enedigol o Ruthun, yn dilyn cwrs TAR ym Mangor eleni gyda'i golwg ar fod yn athrawes ysgol uwchradd.

Dymunwn bob bendith iddi yn ei hastudiaethau ac yn ei hymgyrch i ledanu gwir ysbryd y Nadolig.



**BETHAN AC ELIN ROBERTS**

## GOBAITH YN LLE ANOBAITH



Bu Eglwys Hope Bangor yn darpau cinio Nadolig yn ddi-dor dros yr ugain mlynedd ddiwethaf ar gyfer rhai sy'n ei chael hi'n anodd i ymdopi gydag unigrwydd a theimlad o anobaith.

Eglwys Mosaic yw'r enw ar yr eglwys erbyn hyn, ac mae'r amgylchiadau eleni wedi bod yn gwbl wahanol. Ond bu torchi llewys ac mae'r eglwys wedi darparu cinio mewn hamperi i'w cludo i gartrefi eu 'cwsmeriaid', digon o fwyd ar gyfer Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan. Mae Mosaic yn dibynnu ar gymorth archfarchnadoedd Bangor ac eglwysi'r ddinas ac yn ddiolchgar iawn am bob cymorth, gan gynnwys rhodd eto eleni o £200 gan Emaus.



## CASGLIAD CWRDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD

Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £205 oddiwrth eglwysi a chyfraniadau personol at waith Chwioridd y Byd. Danfonir sic Chwioridd Arfon i Hazel Williams-Jones ddiwedd Rhagfyr.

### CYDNABOD

Derbyniwyd llythyr a derbynneb oddiwrth y BMS yn diolch am ein cyfraniad at Guinebor II ac adroddwyd maint y gwahaniaeth mae pob cyfraniad yn ei wneud yn cefnogi'r meddygon, y nyrsys, y llawfeddygon a'r gweithwyr allweddol yn yr ysbty yn Sahel. Mae'r rhoddion yn achub bywydau a rhoi dyfodol i'n brodyr a chwioridd nad oeddynt yn meddwl oedd bosib.

Llawer o ddiolch i'r chwioridd a holl aelodau Emaus am y cyfraniadau hael a rhaid dweud nad wyf yn gwybod am rai mwy hael drwy Gymru!!

### CYLCHGRAWN BMS

Mae rhifyn 49 o'r cylchgrawn Engage wedi cyrraedd ac mae'n dda deall fod y BMS wedi gwireddu'r strategaeth osodwyd bum mlynedd yn ôl i drawsnewid bywyd miliwn o fywydau ar draws y byd erbyn 2020!



### BLYCHAU

Da ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd erbyn mis Chwefror, ond mi fydd hi'n amser unwaith eto i agor y blychau. Felly, gair bach ichi ei gael allan o'r cwpwrdd?

### STAMPIAU

Mae llawer o gardiau yn cael eu anfon eto eleni, felly cofiwch eu cadw a'u paratoi ar gyfer eu rhoi i mi pan fyddwn yn gallu cyfarfod eto yn y capel.

## BANC BWYD Y GADEIRLAN



Er bod cyfraniadau helaeth wedi bod yn cyrraedd, mae'r bagiau bwyd yn mynd allan yr un mor gyflym. Adeg mor anodd i lawer. Diolch i bawb yn Emaus am eich cefnogaeth hael a ffyddlon gydol y flwyddyn. Dyma lun o'r ystafell yn y Banc Bwyd cyn dechrau dosbarthu ar gyfer cyfnod y Nadolig.

Pobl wedi bod, ac yn dal i fod, yn garedig iawn. Blwyddyn Newydd Dda!

*Delyth Murphy*

## HER GWENLLIAN



Yn 2021 bydd Mudiad Meithrin, dan arweiniad ei Brif Weithredwr Dr Gwenllian Lansdown Davies, yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed. Bu Gwenllian yn feirniad mewn cystadleuaeth ar raglen 'Y Stiwdio Grefftau' S4C i greu murlun i ddathlu'r achlysur. Yr her oedd creu murlun sylweddol ei faint y gellir ei symud o fan i fan, un sy'n dathlu hanes y mudiad ac yn cyfleu ei genhadaeth i'r dyfodol. Ar raglen 'Beti a'i Phobl' Radio Cymru deuthum i adnabod Gwenllian yn well a dilyn troeon ei gyrfa ddisglair. Cyfaddefodd fod Mudiad Meithrin, fel pob mudiad gwirfoddol arall, wedi wynebu cyfnod heriol o ganlyniad i effaith Covid-19, ond ei bod yn edrych ymlaen at ddatblygu projectau newydd a mentrus dan gynllun 'Cymraeg i Blant' Llywodraeth Cymru. Ffocws un ohonynt fydd cymathu hwiangerddi Cymraeg gyda rhai aml-ethnig er mwyn cyfleu natur cymdeithas fodern Cymru. Dymunwn yn dda i Gwenllian wrth iddi geisio gwireddu ei gweledigaeth ynghylch sut y gall y Mudiad Meithrin gyfrannu at ddiogelu dyfodol y Gymraeg a'n hunaniaeth fel cenedl.

*Menna Roberts*

# Sain yr Utgorn

Trefniant o Dawel Nos  
oedd dewis arbennig  
Gwyn Owen  
fel un o'r cyfranwyr i raglen  
'Dathlu'r Nadolig'  
yn un o sesiynau  
Adfent Amgen yr eisteddfod  
ar y we ar Noswyl Nadolig.



# CORNEL POSAU


## GARETH

**ATEB I BOS RHAGFYR 2020  
TAIR CORON**

Mae 13 triongl yn nghoron Caspar,  
22 yng nghoron Balthasar,  
a 31 yng nghoron Melchior.

**POS IONAWR 2021  
DRAW, DRAW O TSIEINA**

Faint yw uchder y bwrdd?



Cwestiwn gwaith cartref i blant 6-10 oed  
mewn ysgol yn Tsieina.

***Bydd yr ateb  
yn rhifyn Chwefror.***

## GLANHAU

Rydym fel eglwys yn ddiolchgar i Carol Stebings  
am ei gwaith fel glanhawraig yn ystod y flwyddyn  
ac mae Carol yn dymuno Nadolig Llawn  
i bawb yn Emaus ac yn diolch  
yn ddiffuant am bob arwydd o'n gwerthfawrogiad.



COFIO'R  
PARCHEDIG D HUGH MATTHEWS  
1936 - 2020



Hydref 1955 oedd hi, a ninnau griw ifanc, diniwed, yn dechrau ar dair blynedd o gwrs yr oeddem ni'n rhyw obeithio y byddai'n arwain at radd yn y Gymraeg.

Yn ein plith roedd bachgen swil ond cyfeillgar oedd yn dod o Dreboeth. Nid o Abertawe sylwer, ond o 'Dreboth' fel y dywedai'n aml gan ddysgu dipyn o ddaeryddiaeth y De i ni ogleddwyr!

Dois i adnabod Hugh lawer gwell yn yr ail flwyddyn gan nad oedd ond pedwar ohonom wedi dewis y gogwydd iaith, oedd yn golygu astudio Llydaweg a Gwyddeleg. Pedwar digon diddorol erbyn meddwl! Ein mam di oll oedd lleian ryw ddeng mlynedd yn hŷn na ni oedd yn hannu o Donegal, Hugh oedd yn mynd i'r weinidogaeth, merch oedd yn canlyn, ac a aeth ymlaen i briodi, Y Parch Gareth Alban, a finnau, oedd yn lleygwr yn eu plith.

Daeth gwyliau haf ddiwedd yr ail flwyddyn. Dyna pryd aeth tri ohonom, bawb ond y Fam Consiglio, i Orllewin Iwerddon am fis o gwrs i wella ein Gwyddeleg. Wn i ddim faint elwach

oedem ni'n ieithyddol, ond daethom yn ffrindiau da dros y cyfnod hwnnw.

Fe gawsom ni ddiwrnod a noson yn Nulyn a mynnodd Huw ein bod yn mynd i Barc Phoenix i weld cofgolofn rhyw ddyn yr oedd wedi dysgu amdano yn ei gwrs Hanes. Wn i ddim pwy oedd o ond roedd Hugh wrth ei fodd. Mae'n dda na wnaethon ni ddim aros nes ein bod ar y ffordd adre cyn mynd i'w weld gan i rywun rhoi bom i'w chwalu yn ystod ein mis yn y Gorllewin.

Roedd ein profiad yn y 'coleg' yn ddifyr iawn. Gan fod ein Gwyddeleg mor sâl roedden ni yn nosbarth y babanod yn cael sylw prin gan yr athrawes druan, ond roedd Hugh a'i hiwmor yn ein cadw'n ddiiddig iawn. Gan nad oedd yn aros yn yr un tŷ â lola a minnau, doedden ni'n gweld fawr ddim arno yn y pnawn oedd yn amser rhydd. Yna, bob fin nos roedd ceilidh, neu ddawns werin, yn y neuadd a'r tri ohonom yn selogion, yn enwedig ar y dechrau. Ond yn fuan roedd Hugh wedi cael digon ar y dawnsio ac roedden ni'n rhyw amau iddo ddod yn ffrindiau da, ddywedwn ni, efo rhyw ferch, ond na, roedd ei galon eisoes yn ôl yn Ne Cymru. Waeth cyfaddef ddim mai fi oedd yn hiraethu am Iwerddon wrth droi tuag adre a dyna pam y sgwennodd Hugh y pennill yma yn fy nyddiadur,

*'Paid bod mor ffôl', meddai Leisa Glandŵr,  
'Â mynd i wlad arall i chwilio am ŵr.  
Ynfyd yw'r sawl a ddeil mai gwell  
Na pherl o agos yw baw o bell.'*

Dydw i ddim yn credu mai fo oedd yr awdur, ond roedd yn mynegi ei deimladau ac yn gwireddu ein amheuan mai yng Nghymru yr oedd ei galon drwy gydol ein mis yn Iwerddon.

*Cathrin Williams*

# GWAŴANAETH NADOLIG Y PLANT A PHOBL IEUANC EMAUS, FIDEO AR ZOOM SUL 20 RHAGFYR

## CYMERIADAU

Gohebydd - - - - - Math  
Gohebydd tramor - Ifan  
Bugeiliaid - - - - - Hawys a Nest  
Angylion - - - - - Alys, Mati a Huw  
Sêr - - - - - Cadi a Ffion  
Doethion - - - - - Luned, Ianto ac Awel  
Herod - - - - - Gwion  
Joseff - - - - - Cian Rees  
Mair - - - - - Alaw

## LLEFARWYR



Morgan Tecwyn  
Nansi  
Carys  
Tesni  
Cian Iolen  
Eluned  
Guto  
Aron  
Morgan Sion

## CERDDORION



Aron a Morgan  
Carys a Luned















# YMWELIAD SIÔN CORN



CADI a FFION



HAWYS A NEST



CARYS, LUNED, IANTO AG AWEL



ALYS, MATI A HUW



GWION



NANSI AG IFAN



CIAN REES

**LLUNIAU CREFFT  
PLANT EMAUS**

SEREN AWEL



SEREN LUNED







### NEGESYDD IONAWR 2021

Mae ein diolch yn fawr  
i Gareth Ffowc Roberts  
am gasglu a chydlynu'r wybodaeth  
ar gyfer y rhifyn yma mewn cyfnod anodd a phrysur.

Yn ychwanegol hoffwn ddiolch iddo am ei ofal, bob mis,  
yn sicrhau nad oes gwallau yn sleifio i mewn i'r Negesydd.

-----

Ar gyfer rhifyn Chwefror 2021  
Dylid gyrru'r holl ddeunydd  
i  
Eleri Lloyd Jones

Fôn : 01248 364665

e-bost : [eleri.jones30@btinternet.com](mailto:eleri.jones30@btinternet.com)

neu, os y dymunwch,  
yn syth i'r Negesydd

e-bost : [negesydd@btinternet.com](mailto:negesydd@btinternet.com)

erbyn Ionawr 24 2021 fan bellaf